Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Natur a Ni
Nature and Us

Adroddiad Canfyddiadau Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni

Awduron: Y Ganolfan Ymchwil Ymgynghori

Paratowyd ar gyfer: Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad: Mai 2023

Cynnwys

RHAGAIR GAN Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD 4

RHAGAIR GAN GADEIRYDD GRŴP CYNGHORI NATUR A NI 5

CADEIRYDD GRŴP CYNGHORI NATUR A NI, IS-GADEIRYDD BWRDD CNC 5

CRYNODEB GWEITHREDOL 6

Datganiadau gweledigaeth 7

1. CYFLWYNIAD 9

1.1 Natur a Ni 9

1.2 Dull ac amcanion 9

1.3 Dadansoddi ac adrodd 13

1.4 Dehongli'r data 14

1.5 Canfyddiadau allweddol 14

2. GWARCHOD AC ADFER NATUR 15

2.2 Newidiadau allweddol: Ymrwymiad ar y cyd i warchod ac adfer byd natur 16

2.3 Manteision: Arbed bywyd gwyllt a gwella iechyd 17

2.4 Y Camau Nesaf hyd at 2050: Strategaeth sy'n nodi rolau'r llywodraeth a dinasyddion 17

3. POLISI A GWNEUD PENDERFYNIADAU 18

3.2 Newidiadau allweddol: Dan arweiniad y llywodraeth a mwy o gyfranogiad gan ddinasyddion 19

3.3 Manteision: Strategaeth y llywodraeth yn cael ei dylanwadu gan bobl 20

3.4 Y camau nesaf: Cyllid, deddfwriaeth a gweithredu ar y cyd 20

4. GWYBODAETH A GWEITHREDU 21

4.2 Newidiadau â blaenoriaeth: Mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth 21

4.3 Manteision: Dinasyddion gwybodus a gweithgar 22

4.4 Y camau nesaf hyd at 2030: Strategaeth a arweinir gan y llywodraeth 23

5. IECHYD 23

5.2 Newidiadau â Blaenoriaeth: Mynediad at fyd natur i bawb 24

5.3 Buddiannau â Blaenoriaeth: Gwell iechyd 24

5.4 Y camau nesaf hyd at 2030: Canolbwyntio ar fynediad cyfartal a mentrau cymunedol 25

6. SYSTEMAU A SEILWAITH 25

6.2 Newidiadau â Blaenoriaeth: Systemau a seilwaith gwyrddach 26

6.3 Buddiannau â Blaenoriaeth: Llai o allyriadau 27

6.4 Y camau nesaf hyd at 2030: Gweithredu gan y llywodraeth i gefnogi dewisiadau cynaliadwy unigol 28

7. RHEOLI TIR 28

7.2 Newidiadau Allweddol: Ffermio a chynhyrchu bwyd cynaliadwy 29

7.3 Manteision: Cysylltiad â thir a mwy o hunangynhaliaeth 30

7.4 Y camau nesaf hyd at 2030: Gosod cyfyngiadau a chefnogi gweithredu cymunedol 30

8. DATGANIADAU GWELEDIGAETH 31

Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd, bydd…

Rhagair gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

Rwy'n croesawu'r adroddiad hynod werthfawr ac amserol hwn a gafodd ei lunio a'i ysbrydoli drwy sgwrsio â phobl Cymru ac sy'n cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol gyda byd natur a ni.

Mae ecosystemau'n dirywio a bioamrywiaeth yn cael ei cholli yng Nghymru, fel sy'n digwydd ar draws y byd. Rydym i gyd yn dibynnu ar yr amgylchedd naturiol sy'n sail i'n llesiant a'n ffyniant economaidd – mae'n darparu aer a dŵr glân i ni, yn rheoleiddio'r hinsawdd, ac yn sicrhau cyflenwadau o fwyd.

Rwy'n cydnabod, os ydym am sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu mwynhau ein cyfoeth naturiol hardd, fod angen i ni gyflymu'r camau gweithredu yr ydym eisoes yn eu cymryd i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Y llynedd mynychais COP15 ym Montreal, lle cytunwyd ar fframwaith byd-eang newydd ar gyfer rheoli natur i drawsnewid perthynas cymdeithas â natur, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni gweledigaeth gyffredin o fyw mewn cytgord â natur erbyn 2050.

Yng Nghymru, gwnaethom ddatgan argyfwng natur a hinsawdd ar y cyd, gan gydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r argyfyngau hyn gyda'n gilydd. Arweiniais Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, gan weithio gydag arbenigwyr ac ymarferwyr allweddol i ddatblygu argymhellion a chamau gweithredu i gefnogi adferiad byd natur. Mae ymagwedd Tîm Cymru yn allweddol i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd dros y ddegawd nesaf – ar draws y llywodraeth gyfan a chymdeithas gyfan.

Roedd argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yn galw am gynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn y rhaglen i newid ymddygiad cyffredinol ynglŷn â newid hinsawdd. Mae'n strategaeth newydd, *'Gweithredu ar Newid Hinsawdd – Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023-2026'* yn fan cychwyn ar gyfer rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd newydd ar newid hinsawdd gyda'r nod o helpu i wneud dewisiadau gwyrdd yn haws, yn fwy fforddiadwy ac yn fwy cyfleus, ac sydd yn cael ei llywio gan yr egwyddor arweiniol o adael neb ar ôl.

Dechreuodd Natur a Ni sgwrs gyda phobl yng Nghymru er mwyn adeiladu gweledigaeth a rennir gyda'n gilydd. Roedd yn gofyn y cwestiwn pa ddyfodol yr ydym ni i gyd ei eisiau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol, a sut olwg allai fod ar 2050 pe baem yn dewis creu dyfodol lle mae natur a chymdeithas yn ffynnu gyda'i gilydd.

Fel rhan o'n Tîm Cymru, mae arnom angen i bob dinesydd, cymuned, grŵp a busnes yng Nghymru wreiddio'r argyfyngau hinsawdd a natur yn y ffordd y maent yn meddwl, yn gweithio, yn bwyta, yn chwarae ac yn teithio. Mae'n bryd i Dîm Cymru gymryd y llwyfan a dangos yr hyn y gallwn ei wneud, sef ein bod yn gryfach gyda'n gilydd ac yn unedig yn ein huchelgeisiau ar gyfer byd natur.

Julie James AS

Gweinidog Newid Hinsawdd

Rhagair gan Gadeirydd Grŵp Cynghori Natur a Ni

Mae'n bleser gennyf rannu gweledigaeth Natur a Ni ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru yn 2050 gyda chi.

Mae'r weledigaeth hon yn cyfleu'r hyn y mae pobl o bob rhan o Gymru ei eisiau ar gyfer ein dyfodol, sef dyfodol lle mae natur a chymdeithas yn ffynnu gyda'i gilydd.

Mae arbenigwyr amgylcheddol yn gwybod y bydd angen cydweithredu bron yn llwyr ar draws pob rhan o gymdeithas i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Ac eto, fel arbenigwyr amgylcheddol, ni wyddom pa newidiadau y mae pobl yng Nghymru yn fodlon eu gwneud, a beth y gallai fod yn rhaid i ni ei hepgor. Sut olwg fydd ar Gymru os ydym yn ddigon beiddgar i ddychmygu y byddwn yn llwyddo i fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol sy'n ein hwynebu?

Dechreuodd Natur a Ni sgwrs gyda phobl yng Nghymru i adeiladu'r weledigaeth hon gyda'n gilydd. Roedd yn gofyn y cwestiwn pa ddyfodol yr ydym ni i gyd ei eisiau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol, a sut olwg allai fod ar 2050 pe baem yn dewis creu dyfodol lle mae natur a chymdeithas yn ffynnu gyda'i gilydd.

Wrth gwrs mae pobl yng Nghymru mor amrywiol â'n natur a'n tirweddau a thrwy gydol y broses hon rydym wedi siarad â microcosm o'n dinasyddion. Yr hyn sy'n gwneud Natur a Ni yn wahanol i ymarferion blaenorol a oedd yn cynnwys gwahanol elfennau o'r gymdeithas y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hwyluso yw'r her barhaus a roesom i ni ein hunain i gyrraedd cynulleidfa mor amrywiol â phosibl, ac eto i fod mor ddiduedd â phosibl wrth ysgrifennu'r casgliadau terfynol. Wrth wneud hynny, rydym wedi cynnwys dinasyddion o bob cefndir ac mae'r weledigaeth hon yn tynnu ar amrywiaeth y safbwyntiau a gasglwyd fel rhan o'r sgwrs genedlaethol. Mae hynny'n cynnwys safbwyntiau'r miloedd o bobl a gwblhaodd ein harolwg ac a gymerodd ran yn ein gweminarau, y rhai y buom yn siarad â hwy mewn digwyddiadau cymunedol a grwpiau trafod, a barn y bobl a gynrychiolodd y gymdeithas Gymreig yn y cynulliad dinasyddion a gytunodd ar y weledigaeth yn yr adroddiad hwn. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd llawer mwy o safbwyntiau i'w hystyried, yn enwedig wrth archwilio'r llwybrau a'r cyfaddawdau sydd eu hangen i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau yma yng Nghymru a ledled y byd.

Rwy'n falch o'r weledigaeth a gyflwynir yma i chi. Nid gweledigaeth ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig yw hon, ond i bawb yng Nghymru ei chefnogi ac i arwain ein gweithredoedd ar y cyd.

Mae CNC yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad yn fanwl, gan fyfyrio ar ein rôl wrth gyflawni'r weledigaeth. Byddwn yn darparu ein hymateb ffurfiol i'r heriau a'r syniadau a godwyd yn ystod hydref 2023. Gofynnwn i chi, beth bynnag fo'ch rôl, wneud yr un peth.

Yr Athro Steve Ormerod

Cadeirydd Grŵp Cynghori Natur a Ni, Is-Gadeirydd Bwrdd CNC

Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gefnogi datblygiad gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu fel y prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd Cymru. Ers 2021, mae'r corff wedi bod yn cyflwyno'r rhaglen Natur a Ni,[1] sy'n ceisio cynnwys pobl ledled Cymru a chlywed eu barn, eu pryderon a'u gobeithion ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol.

Cynhyrchodd cam cyntaf y rhaglen hon, a gynhaliwyd gan Freshwater ac OB3 Research yn gynnar yn 2022, gyfoeth o dystiolaeth ar ganfyddiadau pobl o'r amgylchedd naturiol, ei effaith ar eu bywydau, a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Tynnodd sylw at yr angen i ymgysylltu ymhellach â phobl ledled Cymru ar y mater hwn, y comisiynwyd Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni ar ei gyfer. Mae cynulliad dinasyddion yn dod â sampl gynrychioliadol o boblogaeth at ei gilydd i ystyried tystiolaeth, i ddysgu, ac i gyd-drafod,[2] gan ei wneud yn arf defnyddiol i ystyried y dystiolaeth a gynhyrchir o fewn y rhaglen Natur a Ni a bwydo i mewn i weledigaeth ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru.

Cafodd y Ganolfan Ymchwil Ymgynghori (Centre for Deliberative Research)[3] yng Nghanolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen), elusen gofrestredig a'r sefydliad ymchwil gymdeithasol annibynnol a dielw mwyaf yn y DU, ei chomisiynu i ddylunio a chyflawni'r gwaith hwn. Roedd Datblygiadau Egni Gwledig (DEG),[4] menter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu economïau di-garbon a lleol ar draws gogledd Cymru, yn cefnogi'r broses hon fel hwyluswyr y Gymraeg. Cynhaliodd Sefydliad Sortition[5] broses recriwtio ar gyfer Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni, a ddefnyddiodd gwotâu demograffig fel targedau i sicrhau sampl gynrychioliadol o boblogaeth Cymru (gweler yr adroddiad proses am fanylion llawn).

I gefnogi'r gwaith hwn, cynullwyd panel cynghori gan Cyfoeth Naturiol Cymru i helpu i greu'r cwestiynau craidd ar gyfer y cynulliad, llunio'r rhestr dystiolaeth, ac arwain dyluniad y sesiwn. Hwylusodd tîm NatCen y panel hwn o 16 o bobl trwy dri gweithdy cyd-lunio dwy awr yr un i gyflawni hyn. Cwestiynau craidd olaf y cynulliad oedd:

- **Sut olwg sydd ar y dyfodol pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd?**
    - Beth sydd angen bod yn wahanol i heddiw?
    - Pa fanteision a welwn pe bai hyn yn digwydd?
    - Pa gamau y mae angen i ni yng Nghymru eu cymryd i gyrraedd dyfodol ffyniannus?

[1] https://freshwater.eventscase.com/CY/Natureandus
[2] https://involve.org.uk/resources/methods/citizens-assembly
[3] https://natcen.ac.uk/s/centre-deliberative-research
[4] https://www.deg.wales
[5] https://www.sortitionfoundation.org

Ar y cyfan, recriwtiwyd 52 o gyfranogwyr i gymryd rhan yn y cynulliadau er mwyn sicrhau bod y targed o 50 yn cychwyn ar y sesiynau. Cwblhaodd cyfanswm o 45 y gweithdy cyntaf, cwblhaodd 41 yr ail, a chwblhaodd 40 y tri gweithdy. Bu'r cyfranogwyr yn ystyried ystod o dystiolaeth yn ymwneud â Chymru a'r amgylchedd naturiol yn y ddwy sesiwn gyntaf, a roddodd wybodaeth iddynt nodi blaenoriaethau i lywio gweledigaeth yn y gweithdy terfynol trwy gyfres o ymarferion adeiladu consensws.

Casglwyd blaenoriaethau'r cyfranogwyr yn ystod gweithdai a'u dadansoddi gan NatCen i gynhyrchu chwe thema allweddol y manylir arnynt yn yr adroddiad hwn ac a oedd yn sail i'r datganiadau gweledigaeth. Roedd yr egwyddor bod cyfranogwyr eisiau i'r llywodraeth a dinasyddion chwarae rhan wrth sicrhau dyfodol lle mae cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd yn gyffredin i'r themâu hyn, ac roedd cyfranogwyr eisiau arweiniad gan Lywodraeth Cymru i helpu dinasyddion Cymru i ddeall pa gamau oedd yn bosibl. Drwy gydol y sesiynau, roedd cyfranogwyr yn glir eu barn eu bod eisiau i bob lefel o lywodraeth alluogi dinasyddion Cymru i gymryd camau cadarnhaol drwy'r ffordd y mae'n deddfu, yn ariannu ac yn cyfathrebu. Adlewyrchir y berthynas hon yr oeddent yn dymuno ei chael yn y chwe datganiad gweledigaeth drafft isod.

Rhannwyd y datganiadau hyn gyda 19 aelodau cynulliad a gymerodd ran mewn trafodaethau grŵp ar-lein dilynol. Yn y trafodaethau hyn, gofynnwyd i'r aelodau cynulliad i ba raddau yr oedd y datganiadau hyn yn cynnwys y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynulliad a, phan oedd angen, diwygiwyd y geiriad. Mae'r datganiadau isod felly yn adlewyrchu'r weledigaeth derfynol y cytunwyd arni.

Datganiadau gweledigaeth

Mae'r ddelwedd isod yn dangos elfennau allweddol gweledigaeth ar gyfer Cymru fwy cyfartal a chynaliadwy lle mae cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd.

Ffigur 1. Manylion o gofnodion gweledol elfennau allweddol o'r weledigaeth. Darlun gan Laura Sorvala.

Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd, bydd…

1. **Pobl a'r llywodraeth yn ymrwymo ar y cyd i warchod yr amgylchedd naturiol.**

   Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i'r llywodraeth gyfathrebu ei chynllun i warchod ac adfer yr amgylchedd naturiol. Bydd hyn yn egluro sut y gall pobl a'r llywodraeth helpu i amddiffyn anifeiliaid a phlanhigion sydd mewn perygl ac adfer y mannau lle maent yn byw.

2. **Arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru yn helpu'r cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau am natur.**

   Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o'r llywodraeth gynnwys pobl a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a thystiolaeth glir yn hytrach na buddiannau pleidiau gwleidyddol a buddiannau breintiedig eraill. Bydd hyn yn rhoi mwy o rym i'r cyhoedd ac yn sicrhau bod y llywodraeth yn mabwysiadu'r ymagwedd orau at natur.

3. **Rhannu gwybodaeth yn helpu pobl i ddeall sut mae natur yn effeithio ar eu bywydau, a'r camau y gallant eu cymryd i helpu i ddiogelu ac adfer yr amgylchedd naturiol.**

   Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, bydd gwybodaeth glir a hygyrch yn amlygu'r gwahanol ffyrdd y gall dinasyddion ymddwyn. Bydd hyn yn helpu dinasyddion i wybod pa gamau y gallant eu cymryd i helpu natur a chymdeithas i ffynnu.

4. **Mynediad eang i fyd natur yn helpu pobl ledled Cymru i fyw bywydau hapus ac iach.**

   Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i gymdeithas Cymru gael mynediad i natur mewn modd mwy cyfartal a gwneud ei hamgylchedd yn llai llygredig fel bod pawb yn gallu elwa ar fyd natur. Bydd hyn yn gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl yng Nghymru.

5. **Opsiynau gwyrddach ar gyfer trafnidiaeth ac ynni yn galluogi mwy o bobl i wneud dewisiadau ecogyfeillgar yn eu bywydau o ddydd i ddydd.**

   Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, technolegau ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff yn ogystal â lleihau effaith anghydraddoldebau rhwng pobl a'u cymunedau. Bydd hyn yn rhoi mynediad mwy cyfartal i ddewisiadau ffordd o fyw gwyrddach i bobl ledled Cymru.

6. **Rheoli tir yn gynaliadwy yn helpu cymunedau i brynu bwyd lleol a theimlo'n gysylltiedig â thir Cymru.**

   Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o lywodraeth helpu i wneud ffermio'n fwy cynaliadwy a bwyd lleol yn fwy fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu pobl i brynu mwy o fwyd lleol a chynaliadwy ac adfer byd natur.

1. Cyflwyniad

1.1 Natur a Ni

Mae Natur a Ni yn fenter a sefydlwyd i adeiladu gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru ar gyfer 2050. Mae'r rhaglen yn cael ei hwyluso a'i hariannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu fel y prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd Cymru. Wrth wraidd y rhaglen hon mae ymrwymiad i glywed gan bobl ledled Cymru i gefnogi datblygiad gweledigaeth y gellir ei datblygu ar y cyd gan y bobl, y sefydliadau a'r llywodraeth yng Nghymru.

Yn 2022, lansiwyd sgwrs genedlaethol ar ddyfodol yr amgylchedd naturiol fel cam cyntaf y rhaglen Natur a Ni. Cafodd ei hwyluso gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru. Ymgysylltodd y sgwrs genedlaethol hon â dros 3,000 o ddinasyddion drwy gyfuniad o arolygon, grwpiau ffocws, gweithdai a gweminarau. Amlygodd bwysigrwydd *dyfodol* yr amgylchedd naturiol i bobl ledled Cymru, a chynhyrchodd sylfaen dystiolaeth gyfoethog o'u straeon, eu mewnwelediadau, a'u gobeithion amdano.

Er mwyn adeiladu ar y mewnwelediadau hyn, argymhellodd Grŵp Cynghori Natur a Ni y dylid cynnull cynulliad dinasyddion fel cam nesaf y rhaglen. Dylai'r cynulliad hwn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, a gweithio tuag at greu gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Comisiynwyd y Ganolfan Ymchwil Ymgynghori (CDR) yng Nghanolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddylunio a hwyluso'r cynulliad dinasyddion hwn. Gwnaeth Datblygiadau Egni Gwledig (DEG),[6] menter gymdeithasol sy'n arbenigo mewn datblygu economïau di-garbon a lleol ar draws gogledd Cymru, gefnogi'r broses hon fel hwyluswyr y Gymraeg. Sefydliad Sortition[7] wnaeth recriwtio ar gyfer Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni i sicrhau sampl gynrychioliadol o bobl o bob rhan o Gymru.

1.2 Dull ac amcanion

Yr her a osodwyd gan Grŵp Cynghori Natur a Ni oedd nodi'r blaenoriaethau a rennir gan bobl ledled Cymru ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol. Gwnaethant hefyd bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod amrywiaeth barn o bob rhan o gymunedau Cymru yn cael ei chlywed yn ystod y broses drafod. Er mwyn cyflawni hyn, gosodwyd tri amcan penodol ar gyfer y cynulliad:

[6] https://www.deg.wales
[7] https://www.sortitionfoundation.org

- Ystyried y dystiolaeth ar yr argyfyngau hinsawdd a natur, a safbwyntiau'r cyhoedd a gasglwyd hyd yma drwy'r rhaglen Natur a Ni.
- Cytuno ar weledigaeth a rennir ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru.
- Argymell camau y gall y cyhoedd eu cymryd yn awr, a sut y gall sefydliadau eraill (gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a lleol, CNC, cyrff cyhoeddus a busnesau) gefnogi'r cam hwn.

Er mwyn sicrhau bod amrywiaeth barn yn cael ei chlywed, recriwtiwyd grŵp cynrychioliadol cenedlaethol[8] o 52 o ddinasyddion gan Sefydliad Sortition,[9] sefydliad dielw sy'n arbenigo mewn recriwtio pobl drwy loteri mewn ffordd sy'n cynrychioli poblogaeth benodol yn fras. Cwblhaodd cyfanswm o 45 y gweithdy cyntaf, cwblhaodd 41 yr ail, a chwblhaodd 40 y tri gweithdy.

Cymerodd y dinasyddion hyn ran mewn 13 awr o drafodaethau dros ddau ddiwrnod a hanner, dros dri phenwythnos, gan ddefnyddio cymysgedd o weithdai ar-lein a gweithdai wyneb yn wyneb.

Dyma'r wahanol elfennau'r drafodaeth a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob sesiwn.

Dysgu a thrafod

Gwnaeth cyfranogwyr adolygu tystiolaeth a nodi blaenoriaethau.

Sesiwn 1:

- Blaenoriaethau ar gyfer ffordd o fyw wyrddach
- 5 awr ar-lein

Sesiwn 2:

- Byw gyda natur a llwybrau ymlaen
- 5 awr wyneb yn wyneb

Creu gweledigaeth a rennir

Sesiwn 3:

- Cytuno ar flaenoriaethau
- 3 awr ar-lein

I gefnogi'r gwaith hwn, gwnaeth y panel cynghori a gynullwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i greu'r cwestiynau craidd ar gyfer y cynulliad, llunio'r rhestr dystiolaeth, ac arwain

[8] Gweler adroddiad proses Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni am ragor o fanylion
[9] https://www.sortitionfoundation.org

dyluniad y sesiwn. Hwylusodd tîm NatCen y panel hwn o 16 o bobl trwy dri gweithdy cyd-lunio dwy awr yr un i gyflawni hyn. Cwestiynau craidd olaf y cynulliad oedd:

- Sut olwg sydd ar y dyfodol pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd?
    - Beth sydd angen bod yn wahanol i heddiw?
    - Pa fanteision a welwn pe bai hyn yn digwydd?
    - Pa gamau y mae angen i ni yng Nghymru eu cymryd i gyrraedd dyfodol ffyniannus?

Ar draws y tair sesiwn, defnyddiwyd amrywiaeth o weithgareddau ac ymarferion i gefnogi cyfranogwyr i roi barn ar y cwestiynau craidd hyn. Manylir ar y rhain mewn adroddiad proses ar wahân, ac fe'u crynhoir yn y tabl isod. Cafodd ymatebion y cyfranogwyr eu darlunio ar fwrdd Miro,[10] a dadansoddwyd y data hyn gan dîm NatCen (ceir manylion y broses ddadansoddi yn adran 1.3).

Tabl 1. Cwestiynau a gweithgareddau craidd y cynulliad

Cwestiwn craidd	**Gweithgareddau ac ymarferion**
Sut olwg sydd ar y dyfodol pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd?	Ymarferion creadigol fel adrodd straeon a lluniadu cydweithredol
Beth sydd angen bod yn wahanol i heddiw?	Trafodaeth strwythuredig mewn ymateb i siaradwyr a thystiolaeth
Pa fanteision a welwn pe bai hyn yn digwydd?	Trafodaeth strwythuredig mewn ymateb i dystiolaeth a brasluniau o gymeriadau i ddychmygu manteision i wahanol bobl mewn cymdeithas
Pa gamau y mae angen i ni yng Nghymru eu cymryd i gyrraedd dyfodol ffyniannus?	Gweithgareddau llunio consensws a blaenoriaethu

Ar draws sesiynau un a dau, clywodd cyfranogwyr dystiolaeth gan amrywiaeth o siaradwyr i'w cefnogi i fynegi eu blaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd naturiol. Mae manylion llawn yr wybodaeth a gyflwynwyd i'r cyfranogwyr ar gael yn yr atodiad a cheir crynodeb o'r holl siaradwyr isod.

[10] Y Platfform Cydweithio Gweledol ar gyfer Pob Tîm | Miro

Gweithdy 1

Tabl 2. Tystiolaeth Gweithdy 1

Y math o dystiolaeth	Ffynhonnell y dystiolaeth	Amcan
Cyflwyniad byw	Steve Ormerod, Prifysgol Caerdydd	Deall pwysigrwydd byd natur i'n bywydau bob dydd a'n cysylltiad ag ef
Cyflwyniad byw	Marie Brousseau-Navarro, Comisiynydd Dros Dro Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	Deall yr arfau polisi ar gyfer y dyfodol
Cyflwyniad wedi'i recordio ymlaen llaw	Sharon Thompson, RSPB	Deall yr heriau presennol sy'n wynebu Cymru a sefyllfa natur heddiw
Cyflwyniad byw	Alex Ioannou, CNC	Deall y rhyngweithiadau rhwng ein bywydau a'r tair system graidd o fwyd, ynni a thrafnidiaeth
Cyflwyniad byw	Nerys Edmonds, Iechyd Cyhoeddus Cymru	Ailedrych ar effeithiau byd natur ar fywyd o ddydd i ddydd trwy lens iechyd y cyhoedd i greu dealltwriaeth o effeithiau ac anghydraddoldebau ehangach
Fideo	Cam 1 Prosiect Natur a Ni	Rhannu barn pobl eraill ledled Cymru gyda chyfranogwyr a chreu ymdeimlad o bwrpas a rennir ar gyfer Sesiwn 2

Gweithdy 2

Table 3. Tystiolaeth Gweithdy 2

Y math o dystiolaeth	Ffynhonnell y dystiolaeth	Amcan
Graff	Tudalen 13, Global Biodiversity Outlook 5, 'Summary for Policymakers' (ysgrifenyddiaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (2020))	Pwysleisio natur gydgysylltiedig y mater, a'r amrywiaeth o gamau gweithredu sydd eu hangen
Fideo	Sefydliad Ellen MacArthur	Cyflwyno'r syniad o ddewisiadau amgen cadarnhaol yn y dyfodol trwy'r cysyniad o economïau cylchol
Fideo	Synnwyr Bwyd Cymru	Gwneud cyfranogwyr yn ymwybodol o'r amrywiaeth o gamau gweithredu a mentrau sy'n digwydd yng Nghymru i gefnogi dyfodol gwell i'r amgylchedd naturiol

Fideo	Gwiwer Werdd	Darparu astudiaeth achos o atebion amgen yng Nghymru
Fideo	Cwmpas	Darparu astudiaeth achos o atebion amgen yng Nghymru
Fideo (rhan 1) Fideo (rhan 2)	Sustrans	Darparu astudiaeth achos o atebion amgen yng Nghymru
Fideo	Jason Lewis	Darparu astudiaeth achos o atebion amgen yng Nghymru
Clipiau sain	CNC	I ddechrau paratoi ar gyfer canolbwyntio ar adeiladu gweledigaeth Sesiwn 3

1.3 Dadansoddi ac adrodd

Mae NatCen wedi cynhyrchu dau adroddiad: yr adroddiad canfyddiadau hwn sy'n amlinellu'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r cynulliad yn ogystal â'r datganiadau gweledigaeth drafft a rannwyd â chyfranogwyr, ac adroddiad proses ar wahân sy'n amlinellu amcanion, dull a chyflawniad y cynulliad. Mae'r adroddiad canfyddiadau hwn yn tynnu ar ddata a gasglwyd yn ystod y gwasanaeth trwy Miro a nodiadau hwyluswyr, a oedd yn cynnwys blaenoriaethau'r cyfranogwyr mewn perthynas â'r pedwar cwestiwn craidd.

Cynlluniwyd ein dull dadansoddi i nodi themâu cyffredin a allai fod yn sail i weledigaeth a rennir, o'r ystod o drafodaethau gan gyfranogwyr. I gyflawni hyn, dadansoddodd tîm NatCen y blaenoriaethau a greodd cyfranogwyr ar Miro trwy broses tri cham:

1. Rhoi blaenoriaeth i'r pedwar cwestiwn craidd er mwyn creu darlun o'r hyn y mae cyfranogwyr am ei newid, manteision y newid hwnnw, ac yna'r camau nesaf ar unwaith.

2. Defnyddio dull codio anwythol i ddadansoddi'r data hyn yn thematig, lle rhoddwyd ‘cod’ i bob ymateb sy'n disgrifio prif thema'r ymateb. Er enghraifft, ‘iechyd’ neu ‘trafnidiaeth’.

3. Cynnal ymarfer clystyru i gyfuno'r codau yn gategorïau trosfwaol (yr oedd chwech ohonynt). Galluogodd hyn ymchwilwyr NatCen i nodi’r themâu trawsbynciol a oedd yn bresennol mewn ymatebion i’r holl gwestiynau craidd.

Unwaith y nodwyd y themâu hyn a'r newidiadau, y manteision a'r camau nesaf ym mhob thema, drafftiodd tîm NatCen chwe datganiad gweledigaeth i grynhoi'r canfyddiadau allweddol o fewn pob thema. Profodd NatCen y datganiadau drafft hyn gyda chyfranogwyr cyn cwblhau'r adroddiad hwn. Felly mae'r datganiadau gweledigaeth yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd gan gyfranogwyr yn y broses adeiladu gweledigaeth y bu iddynt gymryd rhan ynddi ar draws tair sesiwn y cynulliad.

1.4 Dehongli'r data

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data ansoddol a gynhyrchwyd gan sampl wedi'i chwblhau o 40 aelod o'r cyhoedd. Cynhyrchwyd y data hwn dros 13 awr o drafodaethau, felly rydym yn hyderus ei fod yn adlewyrchu barn ystyriol y cyfranogwyr ar y pwnc. Mae'r gwaith adrodd yn seiliedig ar ddata a gynhyrchwyd o fewn y gweithdy (trwy fwrdd gwyn ar-lein a nodiadau'r hwylusydd) yn hytrach na dadansoddi trawsgrifiadau o bopeth gafodd ei ddweud. Roedd y dull hwn yn rhoi pwyslais ar nodi blaenoriaethau'r cyfranogwyr ac roedd yn ein galluogi i nodi beth oedd bwysicaf iddynt yn yr amser a oedd ar gael, ond mae'r fformatau a ddefnyddiwyd i wneud hyn yn cyfyngu ar ein gallu i ddadansoddi eu rhesymu yn fanwl.

Mae 40 o bobl a gwblhaodd y gwasanaeth yn nifer cadarn ar gyfer y dull hwn, ac fel yr adroddwyd yn yr adran samplu a'r adroddiad proses, roedd y sampl hon yn adlewyrchu poblogaeth Cymru mewn demograffeg allweddol. Fel ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chael y cyhoedd i gyfranogi, mae'r sampl hon yn golygu y gall dinasyddion Cymru na fynychodd y sesiwn fod yn hyderus bod trawstoriad o boblogaeth Cymru wedi cymryd rhan yn y gwaith o greu'r datganiadau gweledigaeth hyn. Mae hwn yn fesur pwysig o lwyddiant ar gyfer dulliau cyfranogol megis cynulliadau dinasyddion. Fel ymarfer ymchwil, nid yw sampl o 40 yn ddigon mawr i adrodd am ganfyddiadau cyffredinoladwy am agweddau poblogaeth ehangach Cymru.

1.5 Canfyddiadau allweddol

Mae'r adroddiad canfyddiadau hwn yn disgrifio'r chwe thema, sy'n sail i weledigaeth ar gyfer y dyfodol, a nodwyd gan NatCen trwy ddadansoddi blaenoriaethau cyfranogwyr. Mae pob pennod yn amlinellu thema wahanol ac yn nodi canfyddiadau allweddol yn erbyn y cwestiynau craidd i ddisgrifio blaenoriaethau'r cyfranogwyr o ran yr hyn sydd angen ei newid, manteision allweddol y newid hwnnw, a'r camau nesaf sydd angen eu cymryd ar unwaith tuag at gyrraedd y weledigaeth a'r blaenoriaethau a ddewiswyd ganddynt.

Mae'r bennod gyntaf yn amlygu pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol trwy ymrwymiad ar y cyd rhwng y cyhoedd a'r llywodraeth. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r rôl arweiniol yr oedd y cyfranogwyr am i wahanol lefelau o'r llywodraeth ei chyflawni i alluogi dinasyddion i weithredu drwy'r ffordd y mae gwahanol lefelau o'r llywodraeth yn deddfu, yn ariannu ac yn cyfathrebu. Mae hefyd yn cyflwyno'r cyfrifoldeb y mae'r cyfranogwyr yn meddwl sydd gan ddinasyddion i weithredu unwaith y bydd lefelau gwahanol o'r llywodraeth wedi arwain y ffordd. Er bod yr ymrwymiad yn cael ei rannu, mae'r camau nesaf sydd angen eu cymryd ar unwaith yn canolbwyntio'n fwy ar gamau gweithredu'r llywodraeth, a oedd yn nodwedd trwy gydol y cynulliad: pan holwyd y cyfranogwyr am y camau nesaf, rhestrwyd mwy o gamau gweithredu i'w cymryd gan y llywodraeth na chamau gweithredu gan ddinasyddion unigol.

Mae pennod tri yn amlinellu blaenoriaethau sy'n ymwneud â pholisi a gwneud penderfyniadau, ac yn dangos bod y cyfranogwyr eisiau mwy o eglurder a thryloywder ynghylch sut y caiff polisi natur ei ddatblygu yn ogystal â sicrwydd ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac nad yw'n wleidyddol. Mae hefyd yn manylu ar ddewis y cyfranogwyr i ddinasyddion gymryd mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Mae pennod pedwar yn amlinellu pwysigrwydd mynediad at wybodaeth. Mae'n amlygu awydd cyfranogwyr i wahanol lefelau o lywodraeth arwain ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth sy'n cefnogi dinasyddion i fod yn fwy gwybodus am yr amgylchedd naturiol a gwybod sut i weithredu.

Mae pennod pump yn canolbwyntio ar iechyd ac yn disgrifio sut roedd cyfranogwyr eisiau mynediad mwy eang a chyfartal i fyd natur er mwyn cefnogi pobl i fyw bywydau iachach.

Mae pennod chwech yn adrodd sut yr hoffai cyfranogwyr ddiwygio'r seilwaith i alluogi mwy o bobl yng Nghymru i wneud penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth ac ynni sy'n ystyriol o'r amgylchedd.

Mae pennod saith yn canolbwyntio ar reoli tir ac yn manylu ar farn cyfranogwyr y dylai lefelau gwahanol o lywodraeth gefnogi ffermio mwy cynaliadwy, a fyddai wedyn yn galluogi dinasyddion Cymru i deimlo'n fwy cysylltiedig â'u tir lleol.

Ar ddechrau pob pennod, ceir datganiad gweledigaeth sy'n anelu at gipio blaenoriaethau'r cyfranogwyr ar gyfer dyfodol lle mae cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd. Mae'r chwe datganiad hyn wedi'u cynnwys yn y crynodeb gweithredol ac ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Maent wedi cael eu rhannu â chyfranogwyr Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni i gael adborth arnynt.

Drwy gydol y cynulliad, cyfeiriodd y cyfranogwyr yn aml at gamau gweithredu'r 'llywodraeth' heb fod yn rhagnodol o ran pa lefel o'r llywodraeth yr oeddent yn cyfeirio ati, ac felly ym mhenodau tri i saith yr adroddiad rydym wedi cyfeirio at 'lefel o lywodraeth' neu 'y rhai mewn grym' oni bai ei bod yn amlwg bod y cyfranogwyr yn cyfeirio at weinyddiaeth benodol (e.e. Llywodraeth Cymru neu awdurdod lleol).

2. Gwarchod ac adfer natur

Yn sesiynau'r cynulliad, clywodd y cyfranogwyr gan academyddion ac arweinwyr cymdeithas sifil, gan gynnwys yr RSPB, ar gyflwr presennol yr amgylchedd naturiol a phwysigrwydd adfer. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd er mwyn gwarchod byd natur a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Ar ôl clywed yr wybodaeth hon, roedd cyfranogwyr yn aml yn pwysleisio diogelu ac adfer natur fel blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer y dyfodol. Roeddent yn deall bod yr amgylchedd naturiol yn cwmpasu pob agwedd ar natur, gan gynnwys bywyd gwyllt a mannau gwyrdd a glas, yn ogystal â thir a reolir a thir heb ei reoli. Ni roddwyd gwybodaeth fanwl i'r cyfranogwyr am y ddeddfwriaeth gyfredol ynghylch ymrwymiadau i adfer a gwarchod yr amgylchedd naturiol. O ganlyniad, wrth adolygu blaenoriaethau'r cyfranogwyr, nododd NatCen rolau a chyfrifoldebau o ran gwarchod ac adfer natur fel thema annibynnol a datblygodd y datganiad gweledigaeth drafft canlynol:

Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd, bydd pobl a'r llywodraeth yn ymrwymo ar y cyd i warchod yr amgylchedd naturiol.

Mae’r bennod hon yn disgrifio’r newidiadau allweddol y mae cyfranogwyr am eu gweld drwy ymrwymiad ar y cyd gan y cyhoedd a’r llywodraeth i warchod ac adfer natur. Teimlwyd y byddai hyn yn diogelu rhywogaethau sydd mewn perygl yn ogystal â gwella iechyd a llesiant dinasyddion Cymru. Roedd y camau nesaf yn pwysleisio'r angen am strategaeth ar unwaith sy'n darparu ffyrdd diriaethol i'r cyhoedd weithredu.

Tabl 4. Newidiadau, manteision a’r camau nesaf ar gyfer yr amgylchedd naturiol

Beth sydd angen ei newid?	**Manteision allweddol**	**Y camau nesaf ar unwaith**
Ymrwymiad ar y cyd sy'n nodi ffyrdd diriaethol y gall pobl amddiffyn yr amgylchedd naturiol	Gwarchod ac adfer anifeiliaid, planhigion a'u cynefinoedd Creu mwy o fannau gwyrdd i ddinasyddion eu mwynhau	Strategaeth sy'n nodi rolau'r llywodraeth a dinasyddion Cymhellion ariannol i annog camau gweithredu sy'n ystyriol o natur

2.2 Newidiadau allweddol: Ymrwymiad ar y cyd i warchod ac adfer byd natur

Drwy gydol y cynulliad, mynegodd llawer eu bod yn teimlo wedi'u llethu gan raddfa'r newid y teimlent oedd ei hangen i greu eu gweledigaeth ar gyfer byd natur ffyniannus. I lawer, arweiniodd hyn at roi pwyslais ar yr angen am ymrwymiad ar y cyd i warchod ac adfer byd natur gan wahanol lefelau o lywodraeth a’r cyhoedd. Dylai’r ymrwymiad hwn gynnwys ffyrdd diriaethol o wella’r amgylchedd morol, rheoli tir, rhywogaethau mewn perygl, ac ansawdd aer, gyda ffocws ar integreiddio natur i’n bywydau bob dydd a’n hamgylchoedd. Roedd rhai o’r farn y dylid ei ymgorffori mewn deddfwriaeth hefyd, er ei bod yn bwysig nodi na ddarparwyd gwybodaeth fanwl am y ddeddfwriaeth gyfredol ynghylch ymrwymiadau i ddiogelu’r amgylchedd naturiol i gyfranogwyr.

Roedd y rhan fwyaf o enghreifftiau o gamau gweithredu gweladwy yn canolbwyntio ar bethau y gallai gwahanol lefelau o lywodraeth eu gwneud i warchod ac adfer byd natur. Fel y disgrifiwyd yn adran 2.4, roedd cyfranogwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar bethau y gallai’r llywodraeth eu gwneud yn y lle cyntaf i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei adfer, gyda’r syniad mai cyfrifoldeb dinasyddion fyddai ei warchod a'i gynnal. Er mwyn gwarchod yr amgylchedd morol, roedd y camau gweithredu yn cynnwys cael gwared ar yr holl blastigau a charthion, a ategwyd gan gamau cryf gan wahanol lefelau o lywodraeth i atal y math hwn o wastraff yn y dyfodol. Nododd rhai fod angen gwell rheolaeth tir (manylir ymhellach ar hyn ym mhennod saith) sy'n ystyried pob agwedd ar natur, gyda chamau gweladwy o blannu mwy o goed a dyrannu rhandiroedd cymunedol yn enghreifftiau a roddwyd. Nododd eraill y weithred o warchod rhywogaethau a oedd bron wedi darfod a gweithgareddau a fyddai'n annog bioamrywiaeth, yn hytrach na'r hyn yr oedd rhai yn ei weld ar hyn o bryd fel polisïau mwy symbolaidd i warchod ‘mannau gwyrdd’.

“Rheoli tir sy’n ystyried natur, bywyd gwyllt ac ati”

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod yr angen am ymrwymiadau ar y cyd i sicrhau bod dyfodol cynaliadwy i natur yn addas i bawb, yn hytrach nag arwain at ffordd o fyw fwy ystyriol o natur sy'n gyfyngedig i rai oherwydd amgylchiadau fel bod yn gefnog yn ariannol. Rhaid i ddyfodol llewyrchus i'r amgylchedd naturiol fod yn un y mae pawb yn teimlo y gallant fod yn rhan ohono, a fydd yn golygu gwell cefnogaeth i natur yn ogystal â chymdeithas fwy cynhwysol wrth i ni weithio i wireddu hyn.

"Llai o anghydraddoldeb neu o leiaf dim mwy o anghydraddoldeb"

2.3 Manteision: Arbed bywyd gwyllt a gwella iechyd

Ystyriwyd bod gwarchod yr amgylchedd naturiol o fudd i fywyd gwyllt trwy gadw rhywogaethau a'u cynefinoedd, ac i fodau dynol trwy gyfrannu at y buddion iechyd a drafodir ymhellach ym mhennod pedwar.

Roedd y cyfranogwyr yn gweld mentrau fel cynyddu mannau gwyrdd, dad-ddofi safleoedd tir llwyd a diogelu amgylcheddau naturiol eraill fel rhai sy'n galluogi adfywiad a ffyniant rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid sydd wedi bod yn prinhau. Gwelwyd bod hyn yn mynd law yn llaw â manteision eraill y byddai cynnydd mewn mannau gwyrdd yn eu cael i Gymru, megis gostyngiad mewn allyriadau carbon, dyfrffyrdd glân, a gwell iechyd y boblogaeth.

"Mae mwy o fannau gwyrdd yn golygu mwy o fywyd gwyllt!"

"Natur (bioamrywiaeth, yr atmosffer ac ati) a ni (iechyd corfforol a meddwl a'r economi)"

2.4 Y Camau Nesaf hyd at 2050: Strategaeth sy'n nodi rolau'r llywodraeth a dinasyddion

Er bod y cyfranogwyr yn cydnabod bod angen ymrwymiad ar y cyd rhwng y llywodraeth a dinasyddion i warchod ac adfer yr amgylchedd naturiol, pan ofynnwyd iddynt am y camau nesaf ar unwaith, canolbwyntiodd pobl ar gamau gweithredu gan y llywodraeth. Yn benodol, roedd y cyfranogwyr am i'r llywodraeth gyhoeddi *'cynllun 20 mlynedd o weithgareddau integredig'* a fyddai'n cyflwyno *'canlyniadau dymunol a gwerthuso syniadau arfaethedig ar gyfer effeithiolrwydd wrth eu cyflawni'*. Ar yr un pryd, roedd pwyslais clir ar weithredu nawr: *'Ymdriniwch ag ef ar fyrder – nid yw 2050 mor bell â hynny!'* ynghyd eto gyda chyfeiriad at y ffaith eu bod am weld *'deddfwriaeth i ddechrau gweithredu unrhyw gynlluniau sy'n barod'*.

O fewn y strategaeth hon, roedd y cyfranogwyr eisiau i Lywodraeth Cymru osod cyfeiriad y newid, gyda chyfranogwyr yn awgrymu bod *'angen dannedd ac ystyr ar y lefel genedlaethol'* ac yn galw am *'nodi camau gorfodi a galluogwyr'*. Roedd nifer o'r camau nesaf ar unwaith yn ymwneud â chyflwyno cymhellion ariannol, cynlluniau ariannu a deddfwriaeth.

Roedd y syniad y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cymhellion ariannol i lywio camau gweithredu unigolion a busnesau yn amlwg yng nghyfraniadau'r cyfranogwyr. Roedd yr awgrymiadau'n amrywio o *'ad-daliadau treth ar gyfer ffermio cynaliadwy'* i daliadau a

dirwyon uniongyrchol am weithgareddau sy'n niweidio natur, e.e. *'dirwyon mwy am ymddygiad nad yw'n eco'* a *'gwneud i lygrwyr dalu ar bob lefel'*.

Roedd disgwyliad clir hefyd i wahanol lefelau o lywodraeth ariannu mentrau sy'n cefnogi byd natur. Er enghraifft, *'darparu llawer mwy o grantiau neu fenthyciadau di-log i insiwleiddio ac uwchraddio tai preifat'* neu *'greu cymhorthdal i ffermwyr Cymru i gymryd lle cyllid yr UE'*. Yn ogystal, roedd y cyfranogwyr am weld buddsoddiad mewn seilwaith galluogi, megis *'llwybrau beicio diogel'* a *'thrafnidiaeth gyhoeddus'* yn fwy cyffredinol, neu *'brosiectau tai cymdeithasol o ansawdd uchel gyda ffocws ar ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd'*. Fel y soniwyd yn gynharach yn y bennod, ni roddwyd manylion i'r cyfranogwyr am yr holl fentrau cyfredol.

Datgelodd trafodaethau ffafriaeth eang at *'ddeddfwriaeth i ysgogi gweithredoedd unigol'* yng Nghymru. Nid oedd y cyfranogwyr bob amser yn esbonio'r cysylltiad hwn ond gwelsant rôl i'r llywodraeth greu'r cymhellion a'r cymorth cywir i bobl wneud penderfyniadau sy'n ystyriol o natur. Nododd y cyfranogwyr amrywiaeth o gyfleoedd deddfwriaethol mewn perthynas â hyn ar y lefel weithdrefnol, e.e. *'cymorth i drosi deddfwriaeth sylfaenol yn gamau gweithredu'*, *'deddfwriaeth i ddechrau gweithredu unrhyw gynlluniau sy'n barod'*, a *'deddfu ar gyfer cyfrifoldeb corfforaethol'*, ac mewn perthynas ag agweddau mwy ymarferol, e.e. *'caniatáu menter ysgol uwchradd i blannu a thyfu lle bo hynny'n bosibl'*, *'gwahardd defnyddio plastigau sengl ar gynhyrchion bwyd'*, neu hyd yn oed *'gwahardd ceir preifat'*.

Mae'r pwyslais hwn ar weithredu gan y llywodraeth yn awgrymu bod cyfranogwyr yn teimlo bod angen gwahanol lefelau o lywodraeth arnynt i wneud mwy i sefydlu'r amgylchedd a chymhellion cywir cyn y gall dinasyddion ddechrau newid eu hymddygiad a chymryd camau ystyrlon. Roedd y deinameg hon o'r rhai sydd mewn grym yn arwain drwy gyllid a deddfwriaeth fel y gall dinasyddion weithredu yn amlwg ym mhob un o'r themâu dilynol.

3. Polisi a gwneud penderfyniadau

Yn ystod sesiynau'r cynulliad, cyflwynwyd cyfranogwyr i waith Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ond ni chawsant ddisgrifiad manwl o sut mae polisi ym maes yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddatblygu. Clywsant hefyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mandadu cyrff cyhoeddus i ystyried cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn byw yng Nghymru, ac felly roeddent yn gyfarwydd â'r math o ymyriadau posibl yn y maes polisi hwn.

Wrth i drafodaethau fynd rhagddynt, roedd llawer eisiau gwybod mwy am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yn ogystal â sut mae targedau'n cael eu gosod a'u monitro, ar gyfer cyflawni rhywbeth fel dyfodol lle mae cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd. Roedd llawer hefyd yn pwysleisio'n barhaus yr angen i gynnwys pobl yn y penderfyniadau hyn. Ar ôl dadansoddi'r cwestiynau hyn a'r ceisiadau am wybodaeth, nododd NatCen thema polisi a gwneud penderfyniadau fel blaenoriaeth allweddol i'r cyfranogwyr, a drafftiodd y datganiad gweledigaeth a ganlyn:

Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd, bydd arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru yn helpu'r cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau am fyd natur.

Mae'r bennod hon yn manylu ar y rôl y mae cyfranogwyr am i Lywodraeth Cymru ei chwarae wrth arwain yr agenda bolisi ac egluro'n glir i bobl sut y gallant gymryd rhan. Daw hyn â manteision o sicrhau bod polisi yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach nag yn wleidyddol, yn ogystal â gwneud i bobl deimlo y gallant ddylanwadu ar y canlyniadau. O ran y camau nesaf, y rôl allweddol a nodwyd ar gyfer y llywodraeth yw ariannu mentrau a chreu mwy o brosesau cynulliad i gynnwys y cyhoedd.

Tabl 5. Newidiadau, manteision a'r camau nesaf ar gyfer gwneud polisïau a phenderfyniadau

Beth sydd angen ei newid?	**Manteision allweddol**	**Y camau nesaf ar unwaith**
Mae Llywodraeth Cymru yn arwain agenda bolisi nad yw'n wleidyddol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth	Mae strategaeth a phenderfyniadau hirdymor yn seiliedig ar dystiolaeth	Mwy o fentrau trawsbleidiol
Mwy o rôl i'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau i ddwyn y llywodraeth i gyfrif	Mae pobl yn teimlo'n fwy gwybodus am sut y gallant ddylanwadu ar y llywodraeth a'i dwyn i gyfrif	Mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd

3.2 Newidiadau allweddol: Dan arweiniad y llywodraeth a mwy o gyfranogiad gan ddinasyddion

Er na roddwyd gwybodaeth fanwl i'r cyfranogwyr am bwerau Llywodraeth Cymru, maent am iddi arwain newidiadau gwyrddach i Gymru gyfan drwy gynlluniau ariannu a chyfathrebu clir a – lle bo angen – cyflwyno deddfwriaeth.

> *"Llywodraeth Cymru, San Steffan (a'r UE gobeithio!) gyda strategaeth sydd yn galluogi pobl i fyw bywyd heb effaith ar yr amgylchedd"*

> *"Mae dadreoleiddio yn felltith fodern. Mae angen rheoleiddio arnom…"*

Roedd llawer yn cydnabod nad oeddent yn ymwybodol o bolisïau a phrosesau penderfynu cyfredol y llywodraeth. O ganlyniad, newid allweddol a amlygwyd gan y cyfranogwyr oedd rhoi mwy o eglurder ynghylch polisïau presennol Cymru a'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer polisïau newydd.

Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod polisi amgylcheddol cyfredol yn wleidyddol, lle gallai gwleidyddion wneud penderfyniadau er lles cul eu plaid yn hytrach na buddiannau'r amgylchedd a dinasyddion Cymru. Pwysleisiodd y cyfranogwyr hyn yr angen am arweiniad gan y llywodraeth a gefnogir gan bob plaid ac a allai felly sefydlu strategaeth tymor hwy ar gyfer natur nad yw mewn perygl o newid pan fydd y blaid flaenllaw yn newid.

Er bod neges glir i wahanol lefelau o lywodraeth gymryd yr awenau, nododd y cyfranogwyr awydd cryf i gymryd rhan a chael llais wrth lunio dyfodol gwyrddach i Gymru. Er enghraifft, roedd un cyfranogwr yn cydnabod pwysigrwydd *'pobl yn cymryd perchnogaeth o'u cymunedau, yn gwthio ac yn eiriol dros y newidiadau hyn'*. Teimlai'r cyfranogwyr y byddai hyn yn cynyddu atebolrwydd yn ogystal â galluogi'r cyhoedd i deimlo bod ganddynt rôl, y tu hwnt i newidiadau i'w ffordd o fyw, wrth sicrhau dyfodol yr amgylchedd naturiol.

3.3 Manteision: Strategaeth y llywodraeth yn cael ei dylanwadu gan bobl

Un o fanteision allweddol strategaeth anwleidyddol gan y llywodraeth oedd y byddai polisi yn canolbwyntio mwy ar yr amgylchedd yn ogystal â bod yn seiliedig ar dystiolaeth. Mewn Cymru yn y dyfodol lle mae natur a chymdeithas yn ffynnu, dychmygodd y cyfranogwyr y dylai amcanion polisi gael eu cynllunio ar sail tystiolaeth wyddonol annibynnol ac ymarferion democrataidd cyfranogol, lle cyflwynir tystiolaeth i ddinasyddion yn yr ail sefyllfa cyn dod at ei gilydd i lunio argymhellion. Ymhellach, roedd y cyfranogwyr yn gweld y dull gweithredu fel ffordd effeithiol o sefydlu beth allai weithio o fewn cymunedau – y newidiadau y byddai dinasyddion yn eu derbyn ac felly'n eu cynnal trwy ddiwylliant o ymddygiad rhagweithiol sy'n ystyried yr amgylchedd.

> *"Mae gwleidyddion yn dilyn disgwrs gweithredol, yn hytrach na dadleuon gwleidyddol. Mwy o gytundeb trawsbleidiol yn arwain at ddyfodol mwy llewyrchus."*

> *"[Mae'n] fantais fawr i bobl yn gyffredinol ddod at ei gilydd at ddiben cyffredin. Mae cyfansoddiad cymdeithas wedi newid."*

Roedd cyfranogwyr o'r farn bod elfen gyfranogol o wneud penderfyniadau yn galluogi dull polisi mwy radical sy'n blaenoriaethu'r amgylchedd dros ffactorau eraill megis yr economi. Roeddent o'r farn, os yw pobl yn ymwneud mwy â llunio polisïau, yna mae'n fwy tebygol y bydd ymyriadau polisi yn cael eu cyfeirio at ymddygiad busnesau mawr (e.e. rheoli tir a datblygiadau newydd) yn hytrach na dibynnu ar y cyhoedd yn gyffredinol i newid eu hymddygiad er gwaethaf y system yn cymell ymddygiad anghynaliadwy.

> *"[Mae'n] ddelfrydyddol [i fod] yn ddibynnol ar gwmnïau'n dewis gwneud hyn…"*

3.4 Y camau nesaf: Cyllid, deddfwriaeth a gweithredu ar y cyd

Roedd rôl i ddinasyddion a chymunedau wrth wneud penderfyniadau yn amlwg yn y camau nesaf gan i rai nodi bod *'cynulliadau fel ein un ni'* yn bwysig. Roedd y cyfranogwyr yn cefnogi defnydd pellach o brosesau cyfranogol, ond yn rhybuddio y byddai angen i'r rhain sicrhau canlyniadau. *'Dangos eich bod yn malio beth mae pobl yn ei feddwl'* a sicrhau bod syniadau cystadleuol, *'e.e. ffermio yn erbyn defnydd tir arall ar gyfer natur'*, yn cael eu cymodi a bod *'polisi'r llywodraeth yn adlewyrchu'r weledigaeth'*. Yna *'gwreiddio a*

hyrwyddo'r datganiad cenhadaeth gyda'r boblogaeth' – er enghraifft, *'creu grwpiau ardal lleol i barhau â'r gwaith a'r neges'*.

Roedd symud polisi natur o'r byd gwleidyddol hefyd yn amlwg yn y sgyrsiau ynghylch y camau nesaf ar unwaith. Roedd y cyfranogwyr eisiau gweld *'diwedd ar lobïo ac ariannu gwleidyddiaeth' ac i'w cynrychiolwyr edrych y tu hwnt i wleidyddiaeth plaid, gan sicrhau parhad, sef 00204 'nid polisïau gwahanol bleidiau ond polisïau ar gyfer y wlad sy'n parhau waeth pa blaid wleidyddol sydd mewn llywodraeth fel y gallwn gasglu ein gwybodaeth a chael canlyniadau'*.

4. Gwybodaeth a Gweithredu

Drwy gydol y cynulliad, dywedodd llawer o gyfranogwyr eu bod yn anghyfarwydd â llawer o'r dystiolaeth a rannwyd. O ganlyniad, wrth adolygu blaenoriaethau cyfranogwyr, roedd gwell mynediad at wybodaeth ac adnoddau yn thema a gododd dro ar ôl tro. Ar ôl dadansoddi ymatebion yn ymwneud â'r thema hon, drafftiodd NatCen y datganiad gweledigaeth a ganlyn:

Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd, bydd rhannu gwybodaeth yn helpu pobl i ddeall sut mae natur yn effeithio ar eu bywydau, a'r camau y gallant eu cymryd i helpu i ddiogelu ac adfer yr amgylchedd naturiol.

Mae'r bennod hon yn disgrifio sut y nododd cyfranogwyr fod mwy o wybodaeth gan y cyhoedd am yr amgylchedd naturiol ac ymwybyddiaeth o sut i weithredu fel meysydd allweddol ar gyfer newid. Er mwyn cyflawni hyn, maent am i'r llywodraeth arwain strategaeth ymwybyddiaeth ac ymgysylltu sy'n cefnogi holl bobl Cymru i ddod yn ymroddedig a chymryd rhan. Byddai'r newidiadau hyn yn arwain at gyhoedd mwy ymgysylltiol a gwybodus.

Tabl 6. Newidiadau, manteision a'r camau nesaf ar gyfer gwybodaeth a gweithredu.

Beth sydd angen ei newid?	**Manteision allweddol**	**Y camau nesaf ar unwaith**
Mwy o wybodaeth gan y cyhoedd am yr amgylchedd naturiol	Cyhoedd mwy gwybodus ac ymgysylltiol	Strategaeth ymgysylltu ac addysg a arweinir gan y llywodraeth
Mwy o ymwybyddiaeth o sut i weithredu i wella'r amgylchedd naturiol	Mwy o ddinasyddion yn gweithredu	Adnoddau yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ymarferol

4.2 Newidiadau â blaenoriaeth: Mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth

Er mwyn symud tuag at ddyfodol lle mae'r cyhoedd yn deall rôl byd natur yn eu bywydau, pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen am fwy o wybodaeth am yr amgylchedd naturiol ac ymwybyddiaeth o sut i weithredu i'w warchod. Roedd llawer yn gweld gwahanol lefelau o

ariannu mentrau gan y llywodraeth i addysgu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd fel y ffordd allweddol o gyflawni hyn.

Roedd rhoi'r wybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru ddeall y niwed presennol i'r amgylchedd, a gwybodaeth am yr hyn sy'n rhaid ei newid ar lefelau strwythurol ac unigol i liniaru hwn, yn flaenoriaeth allweddol i gyfranogwyr ar draws y cynulliadau. Ochr yn ochr â hyn, nododd mwyafrif y cyfranogwyr fod angen dysgu mwy am y modd y mae cymdeithas a natur yn gysylltiedig â'i gilydd. Ystyriwyd cael materion amgylcheddol fel elfen graidd o addysg i blant mewn ysgolion ac oedolion trwy fentrau cymdeithasol fel y ffordd orau o sicrhau cydnabyddiaeth eang i faterion amgylcheddol cyfoes.

> *"Addysg – beth allwn ni ei wneud a beth ddylen ni fod yn ei wneud, ond hefyd sgiliau, dysgu oddi wrth ein gilydd. Gallu trosglwyddo gwybodaeth o genhedlaeth i genhedlaeth – addysgu ein gilydd."*

Roedd y mwyafrif hefyd yn cytuno bod angen mwy o ymwybyddiaeth o gyfleoedd a mentrau presennol ar ddinasyddion. Teimlai'r cyfranogwyr hyn y gellir sicrhau gwell ymwybyddiaeth o gyfleoedd neu gamau gweithredu presennol trwy fynd ati i geisio atebion i'r cwestiynau sydd ganddynt am faterion natur ac am fentrau neu gyfleoedd presennol.

> *"[Mae angen i ni] fod yn ymwybodol o'r hyn sydd gennym ni a'r hyn sydd ar gael o'n cwmpas."*

Er mwyn creu gwell dealltwriaeth, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, cytunodd y cyfranogwyr fod angen mwy o fuddsoddiad mewn addysg gyhoeddus ac mewn ysgolion. Ni roddwyd gwybodaeth fanwl i'r cyfranogwyr am lefel bresennol y cyllid ar gyfer mentrau addysg ac ymwybyddiaeth ond cyfeiriwyd at bethau megis adnoddau am ddyfodol yr amgylchedd naturiol, ei gyflwr presennol, a ffyrdd o ymgysylltu, yn ogystal â buddsoddiad i feithrin gallu o fewn y sector addysg, cymdeithas sifil a'r llywodraeth i ddefnyddio adnoddau newydd.

> *"Pawb o bob oed yn gwybod mwy am yr amgylchedd ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau bach a mawr yn eu bywydau"*

4.3 Manteision: Dinasyddion gwybodus a gweithgar

Roedd y cyfranogwyr yn gweld sefydlu poblogaeth sy'n wybodus ac yn gallu gweithredu fel budd allweddol sy'n deillio o newidiadau mewn gwybodaeth. Roedd llawer yn gweld hyn yn rhagofyniad angenrheidiol ar gyfer gwireddu gweledigaeth y dyfodol. Roedd gweithredu'n cael ei ddeall fel sbectrwm eang o wirfoddoli i wneud penderfyniadau sy'n fwy ymwybodol o'r amgylchedd. Roedd yn amlwg na all addysg ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd gyflawni hyn ar eu pen eu hunain, ac mae angen eu cefnogi gan y newidiadau a amlygwyd mewn polisi a gwneud penderfyniadau (pennod tri) a'r amgylchedd naturiol (pennod dau) i greu dinasyddion sy'n hollol wybodus a gweithgar.

> *"Addysg: dewis pobl, lleihau agweddau 'taflu i ffwrdd' mewn cymdeithas, economi gylchol, lleihau galw, lleihau cyflenwad, lleihau defnydd, lleihau gwastraff."*

4.4 Y camau nesaf hyd at 2030: Strategaeth a arweinir gan y llywodraeth

Wrth nodi'r camau nesaf, roedd y cyfranogwyr am i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth ymgysylltu ac addysg a all gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ar draws y boblogaeth.

> *'Datblygu strategaeth addysg aml-lefel, o 4 oed i 80 oed, sy'n amlochrog a deinamig – sut y gall Llywodraeth Cymru estyn allan yn rheolaidd i sicrhau poblogaeth addysgedig a fydd yn gwneud y penderfyniadau gorau ar gyfer yr amgylchedd yn barhaus?'*

O fewn y strategaeth hon, fe flaenoriaethodd cyfranogwyr yr angen i ganolbwyntio *'ar y "pam" fel bod y boblogaeth yn cael ei chynnwys'*, gan nodi y dylid ymdrechu i gyrraedd pawb. Byddai hyn yn gofyn am *'lawer o wahanol allfeydd i gyrraedd amrywiaeth o oedrannau a lefelau diddordebau'* ynghyd ag ymagwedd wedi'i thargedu at gyrraedd *'grwpiau oedran a "fethodd", gan sicrhau bod y neges yn cael ei chyfleu i bawb, nid y rhai yn yr ysgol yn unig'*, a chyfleoedd ar gyfer *'rhannu gwybodaeth a safbwyntiau newydd, ac addysg ar bob graddfa'*.

Dylai adnoddau gynnwys sgiliau ymarferol, megis *'sut i dyfu bwyd'*, a ffocws galwedigaethol sy'n *'blaenoriaethu natur fel pwnc o bwys yn yr ysgol gydag opsiynau gweithredu ymarferol'* ac amryw *'lwybrau addysg i ffermio sy'n cefnogi byd natur – cyrsiau coleg, cyrsiau "mynediad at ffermio", a graddau prifysgol'*.

5. Iechyd

Nodwyd iechyd a lles drwy gydol y cynulliad fel ffordd ganolog o gydblethu bywydau pobl â'r amgylchedd naturiol. I lawer, dyma'r pwynt cyswllt cyntaf a oedd ganddynt rhwng eu bywydau eu hunain a natur, boed wrth feddwl am iechyd meddwl a mynediad i fannau gwyrdd neu aer glân i'w plant. Yn ystod cylchoedd adrodd straeon a gynhaliwyd ar hyd traeth Bae Abertawe ac mewn parc rhanbarthol yn Wrecsam, daeth y pwynt cyffwrdd hwn yn glir. Yn ystod y cynulliad, clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn pwysleisio'r berthynas rhwng llesiant a'r amgylchedd naturiol, yn ogystal â sut mae anghydraddoldebau strwythurol yn golygu bod rhai pobl mewn cymdeithas yn wynebu mwy o rwystrau nag eraill wrth gael mynediad at y buddion hyn. Roedd yr wybodaeth hon yn taro tant â'r cyfranogwyr ac, ar ôl dadansoddi'r ymatebion, nododd NatCen thema iechyd, gan ddrafftio'r datganiad gweledigaeth a ganlyn:

Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd, bydd mynediad eang i fyd natur yn helpu pobl ledled Cymru i fyw bywydau hapus ac iach.

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r pwyslais a roddodd y cyfranogwyr ar wella mynediad i fyd natur yn ogystal â chadw ac adfer yr amgylchedd naturiol. I gyflawni hyn, nodwyd lleihau llygredd a chefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned fel y camau nesaf ar unwaith. Nodwyd manteision allweddol y newidiadau hyn fel gwell iechyd meddwl a chorfforol i boblogaeth Cymru.

Tabl 7. Newidiadau, manteision a'r camau nesaf ar gyfer iechyd

Beth sydd angen ei newid?	Manteision allweddol	Y camau nesaf ar unwaith
Gwell mynediad i fyd natur i bawb	Gwell iechyd meddwl a chorfforol	Cefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned
Lleihau llygredd	Gwell iechyd meddwl a chorfforol	Mentrau i leihau traffig a symud i ffwrdd o danwydd ffosil

5.2 Newidiadau â Blaenoriaeth: Mynediad at fyd natur i bawb

Nodwyd darparu cyfleoedd gwell ar gyfer cael mynediad i'r amgylchedd fel newid allweddol a fyddai'n cefnogi pobl Cymru i fwynhau byd natur yn eu bywydau bob dydd.

> *"Mae mannau gwyrdd a mannau awyr agored sydd ar gael i bawb [yn cefnogi] iechyd meddwl"*

Daeth mynd i'r afael ag effaith anghydraddoldebau, a gyflwynwyd fel her gan y siaradwr iechyd cyhoeddus, i'r amlwg fel rheswm allweddol i wella mynediad i fyd natur i bawb. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod rhai pobl mewn cymdeithas yn profi mwy o rwystrau i fwynhau byd natur oherwydd ffactorau fel incwm a ble maent yn byw. Roedd llawer o gyfranogwyr eisiau i bolisïau'r llywodraeth leihau'r rhwystrau hyn, ond nid oeddent yn glir ynghylch yr hyn y gallai polisïau ei gyflawni. Roedd diwygio trafnidiaeth yn newid ychwanegol a fyddai'n cefnogi mynediad at fyd natur a nodwyd gan rai cyfranogwyr ac adroddir arno ym mhennod pump.

> *'lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol fel bod pawb mewn sefyllfa i rannu'r pryder am y dyfodol a'r amgylchedd'*

Yn ogystal â mynediad i fyd natur, roedd cadw ansawdd yr amgylchedd naturiol trwy leihau llygredd yn newid allweddol yr oedd cyfranogwyr yn teimlo ei fod yn angenrheidiol ar gyfer canlyniadau iechyd gwell.

5.3 Buddiannau â Blaenoriaeth: Gwell iechyd

Drwy gydol y cynulliad, roedd cyfranogwyr yn cydnabod yr effaith fuddiol y gall natur a llai o lygredd ei chael ar iechyd meddwl a chorfforol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr yn rheolaidd, er enghraifft, at bwysigrwydd gallu cael mynediad i fannau gwyrdd a glas i leihau straen a phryder, yn ogystal â sut y gallai hyn annog mwy o weithgarwch corfforol.

Disgrifiodd y cyfranogwyr nifer o ffyrdd y byddai gwella'r amgylchedd o fudd i iechyd meddwl a chorfforol dinasyddion. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau llygredd aer a lleihau

llygredd plaladdwyr. Roedd llygredd aer yn arbennig yn ymddangos yn rheolaidd wrth i gyfranogwyr ddisgrifio sut y byddai lleihau allyriadau peryglus trwy symud i ffynonellau ynni adnewyddadwy o fudd i iechyd corfforol y boblogaeth.

> *“Aer diogel i'w anadlu. Amgylchedd iach a diogel.”*

Ymhellach, roedd y cyfranogwyr yn credu y gallai mentrau fel rhandiroedd cymunedol ar safleoedd tir llwyd fod yn gadarnhaol ar gyfer iechyd meddwl drwy’r ffordd y maent yn dod â’r gymuned ynghyd.

> *“Gwella iechyd meddwl trwy gysylltiad ag eraill a natur.”*

Roedd y buddion a ragwelwyd ar lefel unigol yn ymestyn i fuddion cymdeithasol, wrth i gyfranogwyr ddisgrifio'r pwysau a fyddai'n cael eu rhyddhau o'r gwasanaeth iechyd pe bai mwy o ddinasyddion mewn iechyd da.

> *“Cyhoedd iachach, llai o bwysau ar systemau iechyd.”*

5.4 Y camau nesaf hyd at 2030: Canolbwyntio ar fynediad cyfartal a mentrau cymunedol

Er mwyn gwella mynediad at fyd natur i bawb, canolbwyntiodd y cyfranogwyr ar annog gweithgarwch ar lefel gymunedol: *‘Ni ellir gorfodi mentrau a arweinir gan y gymuned felly anogwch bobl i weithredu.’*

Ystyriwyd mentrau a arweinir gan y gymuned fel y ffordd i gynnwys natur ym mywydau pobl. Dylid ystyried fel cam cyntaf *‘pa fentrau cymunedol sydd ar waith sydd angen eu hehangu’*. O *‘gymunedau'n cyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu syniadau a fyddai'n eu helpu’* a *‘chychwyn grŵp WhatsApp gyda chymdogion i annog pobl i gymryd rhan, e.e. nodi pwy sy'n tyfu eu ffrwythau a llysiau eu hunain a chyfnewid cynnyrch’*, i *‘rannu gerddi’* ac *‘ymuno â grwpiau gweithredu lleol fel Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru’*, gwelwyd gweithredu ar y cyd fel rhan hanfodol o adeiladu dyfodol lle mae’r amgylchedd naturiol wedi’i integreiddio ym mywyd y gymuned.

Er mwyn lleihau llygredd, amlygodd y cyfranogwyr gyfyngu ar draffig mewn ardaloedd preswyl, neu hyd yn oed fentrau cymunedol fel cynulliadau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, fel camau nesaf posibl. Soniwyd hefyd am leihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil, sy’n cael ei drafod yn fanylach yn y bennod nesaf.

6. Systemau a Seilwaith

Yn ystod y cynulliad, clywodd y cyfranogwyr gan nifer o siaradwyr a gyfeiriodd at effaith ‘systemau’ ar natur. Yma defnyddiwyd y term ‘systemau’ i ddisgrifio'r seilwaith sy'n llywio'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau – er enghraifft, systemau trafnidiaeth. Trwy fideos byr, cyflwynwyd i’r cyfranogwyr sut mae systemau cyfredol yn rhyngweithio â natur yn ogystal â sut y gallai systemau amgen, gan gynnwys economïau cylchol, sefydlu perthynas

wahanol â natur. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r cynnwys hwn, nododd NatCen thema systemau a seilwaith, a drafftiodd y datganiad gweledigaeth a ganlyn:

Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd, bydd opsiynau gwyrddach ar gyfer trafnidiaeth ac ynni yn galluogi mwy o bobl i wneud dewisiadau ecogyfeillgar yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r blaenoriaethau a nodwyd gan bobl ar gyfer newid yn y system bresennol drwy drafnidiaeth gyhoeddus, ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff. Deallwyd bod y newidiadau hyn yn dod â manteision o ansawdd aer gwell yn ogystal â chefnogi pobl i fyw bywydau gwyrddach. Mae'r camau nesaf a nodwyd i gyflawni hyn yn cynnwys buddsoddiad gan y llywodraeth a newid ymddygiad unigolion.

Tabl 8. Newidiadau, manteision a'r camau nesaf ar gyfer systemau a seilwaith.

Beth sydd angen ei newid?	**Manteision allweddol**	**Y camau nesaf ar unwaith**
Gwell trafnidiaeth gyhoeddus	Gwell ansawdd aer / llai o allyriadau	Buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn trafnidiaeth wyrddach
Symud i ffwrdd o danwyddau ffosil i ynni adnewyddadwy	Cartrefi a busnesau mwy ynni-effeithlon	Integreiddio technoleg adnewyddadwy i ddatblygiadau a seilwaith newydd
Rheoli gwastraff mewn dull sy'n fwy ystyriol o natur	Mae'r gallu i fyw bywydau gwyrddach yn agored i bawb	Cynyddu polisïau sy'n cefnogi ailddefnyddio ac atgyweirio adnoddau ac economi gylchol

6.2 Newidiadau â Blaenoriaeth: Systemau a seilwaith gwyrddach

Nododd y cyfranogwyr fod trafnidiaeth, cyflenwad ynni a rheoli gwastraff yn dri maes allweddol lle gellir gwneud seilwaith Cymru yn wyrddach i gefnogi dinasyddion i wneud dewisiadau mwy ecogyfeillgar.

Tynnodd y cyfranogwyr sylw at yr angen am system trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy, hygyrch ac addas i'r diben a fyddai'n lleihau allyriadau drwy lai o gerbydau personol ac yn gwella mynediad at fyd natur. Yn sesiynau'r cynulliad, roedd hyn yn cynnwys llwybrau bws 'neidio ymlaen / neidio i ffwrdd' a oedd yn caniatáu i feiciau gael eu cludo, gwasanaethau sy'n cysylltu ardaloedd gwledig yn effeithiol â threfi mwy ac ardaloedd gwledig eraill, a rhwydweithiau gwasanaethau trafnidiaeth integredig fforddiadwy. Ystyriwyd bod y newidiadau seilwaith hyn yn hanfodol i alluogi newid ymddygiad.

"Os oes llai o geir, mae angen trafnidiaeth gyhoeddus ratach a mwy cyfleus."

Cytunodd y cyfranogwyr, yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus, ei bod hefyd yn bwysig hyrwyddo trafnidiaeth breifat wyrddach trwy lwybrau beicio mwy diogel a gwella cerbydau trydan fel nad ydynt bellach yn defnyddio batris lithiwm.

> *“Trafnidiaeth gyhoeddus werdd y gellir ei defnyddio: gan gynnwys ail-lenwi â thanwydd ac ailwefru a ddosberthir yn lleol trwy fuddsoddi mewn atebion trafnidiaeth werdd”*

Wrth drafod ynni, cytunodd y cyfranogwyr fod ynni adnewyddadwy fforddiadwy yn flaenoriaeth. Byddai hyn yn darparu dewis amgen i ddefnyddio tanwydd ffosil a fydd yn gwarchod yr amgylchedd.

Soniodd rhai cyfranogwyr am systemau rheoli gwastraff a'r angen i ddulliau rheoli gwastraff gwyrdd mwy ecogyfeillgar fod yn gyson ac ar gael ar draws pob ardal. Roeddent yn cyfeirio at hygyrchedd gwasanaethau rheoli gwastraff ailgylchu. Byddai hyn wedyn yn caniatáu i wasanaeth gwahanu a chasglu gwastraff i'w ailgylchu fod ar gael ledled y wlad, yn hytrach na'i fod ar gael i rai ac nid pawb.

> *“Sut mae ailgylchu gwastraff gardd os nad oes cyfleuster compostio ar gael? system (ailgylchu?) helaeth yn ei lle”*

6.3 Buddiannau â Blaenoriaeth: Llai o allyriadau

Gwelwyd bod newidiadau i drafnidiaeth ac ynni o fudd i natur trwy leihau allyriadau, ac felly yn lleihau effeithiau newid hinsawdd ar natur. Roedd agwedd cydraddoldeb i hyn i rai cyfranogwyr, a oedd yn cydnabod y gallai trafnidiaeth gyhoeddus well a chartrefi mwy ynni-effeithlon helpu i leihau effaith anghydraddoldebau trwy helpu'r rhai ar incwm is.

Ystyriwyd bod manteision cael llai o geir ar y ffordd yn niferus, o ostyngiad mewn allyriadau niweidiol i sefydlu ffyrdd mwy diogel a thawelach sy’n fwy diogel i feicwyr a cherddwyr. Roedd rhai yn gweld hyn fel ffordd o adennill gofod ffyrdd ar gyfer natur a thrwy hynny gynyddu mannau gwyrdd, tra oedd eraill yn credu y byddai cynyddu diogelwch y ffyrdd mewn ardaloedd preswyl yn darparu gofod i gymunedau ddod at ei gilydd.

> *“Trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy sy’n ymestyn ymhell ac agos ac sy’n galluogi gweithwyr i gymudo heb ddefnyddio car”*

Disgrifiodd rhai cyfranogwyr mai mantais arall o ddyfodol gwyrddach fyddai bod datblygiadau tai a busnes yn y dyfodol yn cael eu hadeiladu i fod yn ynni-effeithlon. Cymeradwyodd y cyfranogwyr osod paneli solar, pympiau gwres ac insiwleiddio modern i leihau colli gwres trwy ddyluniadau adeiladau aneffeithlon. Gyda datblygiadau tai yn arbennig yn cynyddu drwy'r amser, ystyriwyd bod hyn yn ddull effeithiol o atal y defnydd o danwyddau ffosil.

> *“Tai cynaliadwy ynni-effeithlon yn gyffredinol.”*

6.4 Y camau nesaf hyd at 2030: Gweithredu gan y llywodraeth i gefnogi dewisiadau cynaliadwy unigol

Roedd y camau nesaf ar unwaith a nodwyd gan y cyfranogwyr yn adlewyrchu cyfuniad o weithredu gan y llywodraeth a gweithredu unigol.

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod angen newid ymddygiad personol. Awgrymiadau penodol o'r hyn y byddai angen i unigolion ei wneud yn ymwneud ag *'ailgylchu cymaint â phosib'*, *'uwchraddio ac insiwleiddio fy nghartref'*, neu *'bod yn fwy ystyriol o'r hyn rydw i'n ei brynu ac o ble mae wedi dod'*.

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno'n eang, fodd bynnag, fod angen newid system mwy i gefnogi unigolion i wneud dewisiadau mwy cynaliadwy. Galwasant am *'atebion fforddiadwy fel y gall pawb weithredu'* ac *'ei gwneud hi'n hawdd i bobl wneud y peth iawn – mae pobl yn ddiog'*, ac yn gweld bod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol wrth alluogi'r dewisiadau hyn.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer y camau nesaf hollbwysig i'r Llywodraeth yn amrywio. Roeddent yn cynnwys newid cynyddrannol megis *'buddsoddi mewn marchnata i annog pobl i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu, oherwydd bod mentrau presennol yn aml yn brin o ddefnydd'*, ac *'adfer y Tariff Cyflenwi Trydan'*, ond hefyd dewisiadau mwy beiddgar megis *'deddfwriaeth ar gael paneli solar ar adeiladau'*, *'adeiladu prosiectau tai cymdeithasol o ansawdd uchel gyda ffocws ar ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd'* neu *'Lywodraeth Cymru yn gwahardd defnyddio plastigau sengl ar gynhyrchion bwyd'*.

Roedd rhai cyfranogwyr hefyd yn awyddus i sicrhau y gallai technoleg chwarae ei rhan wrth alluogi ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw wrth symud ymlaen. Cam ar unwaith fyddai *'defnyddio technolegau presennol nawr'*. Y tu hwnt i hynny, roedd ffocws ar ynni adnewyddadwy, a oedd yn gysylltiedig â galwadau am i *'Lywodraeth Cymru gefnogi a buddsoddi yn natblygiad ynni adnewyddadwy, e.e. rhoi cymhorthdal i'r gost nes iddo ddod yn broffidiol ac yn ariannol gynaliadwy'*.

7. Rheoli tir

Yn ystod y cynulliad, clywodd y cyfranogwyr dystiolaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn amlinellu sut mae tir yn cael ei berchenogi a'i reoli yng Nghymru, gan gynnwys dosbarthu cymorthdaliadau i gefnogi arferion ffermio cynaliadwy. Clywsant hefyd astudiaethau achos a amlygodd opsiynau posibl yn y dyfodol ar gyfer rheoli tir yn fwy cynaliadwy. Wrth ddychmygu dyfodol llewyrchus, dychwelodd y cyfranogwyr at y syniadau hyn o reoli tir yn gynaliadwy. Drwy ddadansoddi sylwadau yn ymwneud â'r syniadau hyn, nododd NatCen reoli tir fel thema a drafftiodd y datganiad gweledigaeth a ganlyn:

Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd, bydd rheoli tir yn gynaliadwy yn helpu cymunedau i brynu bwyd lleol a theimlo'n gysylltiedig â thir Cymru.

Mae’r bennod hon yn amlinellu bod cyfranogwyr eisiau i reolaeth tir fod yn decach ac yn fwy cynaliadwy. Byddai hyn yn dod â manteision o fwyd lleol mwy fforddiadwy a chymunedau'n teimlo'n gysylltiedig â'u tir. Roedd y camau nesaf ar unwaith a nodwyd mewn perthynas â’r thema hon yn canolbwyntio ar osod targedau gan y llywodraeth ar sut y defnyddir tir i hybu dulliau ffermio cynaliadwy.

Tabl 9. Newidiadau, manteision a’r camau nesaf ar gyfer rheoli tir.

Beth sydd angen ei newid?	**Manteision allweddol**	**Y camau nesaf ar unwaith**
Ffermio tecach, mwy cynaliadwy	Cyflenwad bwyd cynaliadwy a hunangynhaliol	Llywodraeth Cymru i osod targedau ar gyfer arferion defnydd tir cynaliadwy
Pris llai ar gyfer nwyddau a gynhyrchir yn lleol	Cysylltiad â thir lleol a bwyd rhatach	Gweithredu technegau ffermio newydd ac annog newidiadau yn y bwyd a fwyteir

7.2 Newidiadau Allweddol: Ffermio a chynhyrchu bwyd cynaliadwy

Ar ôl dysgu am arferion ffermio presennol a dulliau newydd posibl megis amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned, cefnogodd y cyfranogwyr y newid i ddefnydd tir tecach. Deellir bod hyn yn ariannol deg i ffermwyr ac yn deg i'r amgylchedd trwy fod yn gynaliadwy.

Roedd llawer yn cefnogi arferion ffermio mwy cynaliadwy trwy ddatblygu'r dulliau ffermio amgen a rennir mewn astudiaethau achos sy'n harneisio arloesedd mewn technoleg a gwyddoniaeth (e.e. hydroponeg). Cytunodd rhai cyfranogwyr y dylai ffermwyr dderbyn cymhellion ariannol, fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud newidiadau mwy gwyrdd i ffermio. Er enghraifft, nododd un cyfranogwr y duedd yng nghost ffermdir gan ei fod wedi’i werthu ar gyfer gwrthbwyso carbon – menter a allai fod â buddion carbon i sectorau eraill, ond sy’n cael effaith negyddol ar y gallu i gyflawni ffermio cynaliadwy lleol yng Nghymru.

Cytunodd rhai cyfranogwyr y byddai arloesi a newidiadau i sicrhau ffermio cynaliadwy yn cael eu galluogi gan y diwydiant amaeth yn gwneud mwy i hyfforddi a chreu swyddi i bobl ifanc yng Nghymru ymuno â’r diwydiant.

> *“Dylai ffermio [fod] yn grefft y gall pobl fynd iddi heb gael eu geni i ffermio…”*

Er mwyn cefnogi ffermio teg a chynaliadwy, roedd llawer yn teimlo bod angen i bobl leol allu fforddio cynnyrch lleol. Dylai'r cynhyrchion hyn fod ar gael yn lleol mewn ysgolion a gweithleoedd yn ogystal â bod yn fforddiadwy fel y gall pobl o bob oed mewn sefyllfaoedd ariannol amrywiol ddewis yr opsiynau gwyrddach.

> *“Pam mae bwydydd a dyfir gartref / a dyfir yn gynaliadwy yn ddrytach na’u cludo i mewn o wlad arall?”*

7.3 Manteision: Cysylltiad â thir a mwy o hunangynhaliaeth

Gwelwyd bod newidiadau defnydd tir a chynnyrch lleol mwy fforddiadwy o fudd i'r boblogaeth leol drwy wneud iddynt deimlo'n fwy cysylltiedig â'r tir yn ogystal â chefnogi mwy o hunangynhaliaeth yn economi Cymru. Ystyriwyd bod bod yn fwy ymwybodol o'r heriau amgylcheddol sy'n cael eu creu gan weithgarwch dynol presennol, a sut i reoli tir yn gynaliadwy, yn cefnogi cymunedau cydlynol drwy wneud i bobl deimlo'n gysylltiedig â'i gilydd ac â'r tir.

> *"Defnydd tir cadarnhaol – yn gynaliadwy ac yn wych i gymunedau."*

Roedd y cyfranogwyr hefyd yn gallu gweld bod hunangynhaliaeth bwyd ar raddfa o fantais. Trwy fwyta deiet tymhorol a lleol a defnyddio technolegau amaethyddol gwyrdd ar ffermydd Cymru, gwelodd y cyfranogwyr ddyfodol lle gallai Cymru – neu os nad Cymru, yna'r DU gyfan – gael mwy o'i bwyd o gynnyrch amaethyddol cartref. At hynny, ystyriwyd bod technolegau amaethyddol gwyrdd yn ganolog i ddiogelu rhannau eraill o'r amgylchedd naturiol trwy, er enghraifft, leihau llygredd plaladdwyr.

7.4 Y camau nesaf hyd at 2030: Gosod cyfyngiadau a chefnogi gweithredu cymunedol

Roedd y camau nesaf ar unwaith yn ymwneud â defnydd tir yn adlewyrchu cydbwysedd o *'Lywodraeth Cymru yn gosod cyfyngiadau pellach ar yr hyn y gellir / na ellir ei wneud i'r tir/trafnidiaeth/ffermio/cynaladwyedd ar raddfa fawr'* ac *'y gymuned yn rhoi pwysau ar eu cynrychiolwyr i fuddsoddi mewn gwell rheolaeth tir, coedwigaeth, cynhyrchu bwyd a thai cymdeithasol'*.

Roedd enghreifftiau o gamau gweithredu penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys *'gwladoli darnau mawr o dir sy'n eiddo preifat, cynyddu bioamrywiaeth ac ardaloedd gwyllt. Ond bod â ffermydd llai o faint sy'n dechnolegol ddatblygedig a dwys ac sy'n tyfu planhigion yn gynaliadwy.'* Yn fwy cyffredinol, roedd *'canfod ffyrdd o integreiddio ffermio a bioamrywiaeth o fewn rheoli coedwigaeth, e.e. planhigion i ddenu peillwyr'*, yn bryder yr oedd rhai cyfranogwyr am ei weld yn cael ei flaenoriaethu.

Ni ddarparodd y cyfranogwyr enghreifftiau penodol o feysydd lle dylai'r gymuned roi pwysau ar gynrychiolwyr, ond gwnaethant ailadrodd yr angen i fuddsoddi mewn rheoli tir cynaliadwy a thechnegau ffermio uwch. Gall hyn wedyn helpu pobl i newid eu hymddygiad o ran bwyta bwyd.

> *"Mae angen i ni adfywio tyfu cynnyrch lleol i leihau llygredd"*

8. Datganiadau gweledigaeth

Daeth Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni â 40 o bobl o bob rhan o Gymru ynghyd i nodi blaenoriaethau ar gyfer gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yn 2050. Mae'r adroddiad canfyddiadau hwn wedi amlinellu'r chwe thema a nodwyd gan NatCen trwy ddadansoddi blaenoriaethau'r cyfranogwyr hyn, gan ddarparu mewnwelediad i'r hyn yr oedd y cyfranogwyr am ei newid, yr hyn yr oeddent yn ei weld fel budd y newid hwn, a'r camau nesaf ar unwaith ar gyfer pob thema.

Wrth wraidd pob un o'r themâu hyn oedd y syniad bod cyfranogwyr y cynulliad eisiau i wahanol lefelau o lywodraeth gymryd rôl arweiniol drwy alluogi dinasyddion Cymru i gymryd mwy o gamau i amddiffyn byd natur. Mae'r berthynas hon wedi'i hadlewyrchu yn y chwe datganiad gweledigaeth isod a rannwyd gydag aelodau'r cynulliad i gytuno arnynt.

Mae'r ddelwedd isod yn dangos gweledigaeth ar gyfer Cymru fwy cyfartal a chynaliadwy lle mae cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd.

Ffigur 2. Cofnod gweledol o elfennau allweddol y weledigaeth. Darlun gan Laura Sorvala.

Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd, bydd…

1. **Pobl a'r llywodraeth yn ymrwymo ar y cyd i warchod yr amgylchedd naturiol.**

   Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i'r llywodraeth gyfathrebu ei chynllun i warchod ac adfer yr amgylchedd naturiol. Bydd hyn yn egluro sut y gall pobl a'r llywodraeth helpu i amddiffyn anifeiliaid a phlanhigion sydd mewn perygl ac adfer y mannau lle maent yn byw.

2. **Arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru yn helpu'r cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau am natur.**

Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o'r llywodraeth gynnwys pobl a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a thystiolaeth glir yn hytrach na buddiannau pleidiau gwleidyddol a buddiannau breintiedig eraill. Bydd hyn yn rhoi mwy o rym i'r cyhoedd ac yn sicrhau bod y llywodraeth yn mabwysiadu'r ymagwedd orau at natur.

3. **Rhannu gwybodaeth yn helpu pobl i ddeall sut mae natur yn effeithio ar eu bywydau, a'r camau y gallant eu cymryd i helpu i ddiogelu ac adfer yr amgylchedd naturiol.**

Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, bydd gwybodaeth glir a hygyrch yn amlygu'r gwahanol ffyrdd y gall dinasyddion ymddwyn. Bydd hyn yn helpu dinasyddion i wybod pa gamau y gallant eu cymryd i helpu natur a chymdeithas i ffynnu.

4. **Mynediad eang i fyd natur yn helpu pobl ledled Cymru i fyw bywydau hapus ac iach.**

Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i gymdeithas Cymru gael mynediad i natur mewn modd mwy cyfartal a gwneud ei hamgylchedd yn llai llygredig fel bod pawb yn gallu elwa ar fyd natur. Bydd hyn yn gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl yng Nghymru.

5. **Opsiynau gwyrddach o ran trafnidiaeth ac ynni yn galluogi mwy o bobl i wneud dewisiadau ecogyfeillgar yn eu bywydau o ddydd i ddydd.**

Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, technolegau ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff yn ogystal â lleihau effaith anghydraddoldebau rhwng pobl a'u cymunedau. Bydd hyn yn rhoi mynediad mwy cyfartal i ddewisiadau ffordd o fyw gwyrddach i bobl ledled Cymru.

6. **Rheoli tir yn gynaliadwy yn helpu cymunedau i brynu bwyd lleol a theimlo'n gysylltiedig â thir Cymru.**

Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o lywodraeth helpu i wneud ffermio'n fwy cynaliadwy a bwyd lleol yn fwy fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu pobl i brynu mwy o fwyd lleol a chynaliadwy ac adfer byd natur.